



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Addysg ddewisol yn y cartref



Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Mae'r dafen hon yn rhoi gwybodaeth i chi os rydych chi'n ystyried addysgu eich plentyn yn y cartref neu os rydych chi eisoes yn gwneud hynny. I ddibenion y dafen hon mae'r diffiniad o riant neu ofalwr yn cynnwys unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb riant ac unrhyw berson y mae'r plentyn yn byw gydag ef, er enghraifft gofalwr maeth.

Beth yw addysg ddewisol yn y cartref?

Addysg ddewisol yn y cartref yw'r term am sefyllfa lle mae rhieni'n addysgu eu plant yn y cartref yn lle eu hanfon i'r ysgol. Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae addysg yn orfodol, ond nid mynd i'r ysgol.

Pam fyddwn i'n ddewis addysgu fy mhentyn yn y cartref?

Gallech chi benderfynu addysgu eich plentyn yn y cartref am nifer o resymau gan gynnwys credoau athronyddol, ysbrydol neu grefyddol. Mae hefyd yn bosibl y byddech chi'n teimlo eich bod chi'n gallu darparu'n well ar gyfer anghenion ac arddull dysgu eich plant nag y gall ysgol.

Ni ddylech chi byth gael eich annog gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol i dynnu enw eich plentyn oddi ar y gofrestr ysgol i osgoi camau i wahardd eich plentyn o'r ysgol neu i'ch erlyn.

A oes angen i mi fod yn athro neu athrawes i addysgu yn y cartref?

Nac oes, does dim angen i chi fod yn athro neu athrawes ac nid oes angen i chi gael unrhyw gymwysterau.

Beth fydd angen i mi ei addysgu?

Eich cyfrifoldeb fel riant yw sicrhau bod yr addysg yr ydych chi'n ei rhoi yn helpu'r plentyn i ddysgu. Rhaid i'r addysg rydych chi'n ei darparu fod yn effeithlon ac addas. O dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 eich cyfrifoldeb chi fel riant yw sicrhau bod eich plentyn yn cael addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i'w oed, gallu a dawn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo un ai drwy fynd i'r ysgol neu drwy ffordd arall. Bydd addysg yn cael ei hystyried yn effeithlon ac addas os yw'n galluogi'r plentyn i wireddu ei botensial ac yn ei baratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn.

Beth fydd yn digwydd os yw'n ymddangos nad ydw i'n darparu addysg addas?

O dan adran 437(1) o Ddeddf Addysg 1996, mae awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i gymryd camau os yw'n ymddangos nad yw rhieni'n darparu addysg addas.

Bydd eich awdurdod lleol yn cynnig gwneud ymweliad â'r cartref gyda'r bwriad o'ch helpu i ddatrys yr anawsterau o fewn cyfnod a gytunir.

Os byddwch chi'n methu â bodloni'r awdurdod lleol eich bod chi'n darparu addysg addas, a bod yr awdurdod lleol yn credu ei bod yn angenrheidiol i'ch plentyn mynd i'r ysgol, rhaid iddyn nhw gyfwyno gorchymyn mynychu'r ysgol i chi.

I gael rhagor o wybodaeth am orchmynion mynychu'r ysgol, gwelwch y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan:

gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/framework/?lang=cy

A ydw i'n gorfod dilyn y cwricwlwm cenedlaethol?

Nac ydych, ond gallai fod o gymorth i chi fel fframwaith i benderfynu pa bynciau i'w cynnwys a sut i asesu cyfawniadau'ch plentyn. Gallwch chi gael copi o'r cwricwlwm cenedlaethol o wefan Dysgu Cymru (learning.gov.wales/resources/improvementareas/curriculum/?skip=1&lang=cy).

A fyddaf i'n cael unrhyw arian neu gymorth?

Os ydych chi'n penderfynu addysgu eich plant yn y cartref, rhaid i chi fod yn barod i dderbyn yr holl gyfrifoldeb ariannol, yn cynnwys talu'r gost am unrhyw arholiadau cyhoeddus.

Er nad yw awdurdodau lleol yn derbyn arian ar gyfer teuluoedd sy'n dewis addysgu yn y cartref, mae nifer o awdurdodau lleol yn hoff dod i adnabod rhieni ac bydd rhai ohonyn nhw'n darparu cymorth.

Pan fyddwch chi'n dechrau addysgu eich plentyn yn y cartref, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol yn ysgrifennu atoch chi i awgrymu cynnal cyfarfod anffurfol yn eich cartref i drafod eich cynlluniau. Mae llawer o rieni'n gweld bod hyn o gymorth, ond efallai y bydd yn well gennych chi gwrdd rhywle arall neu allech chi ysgrifennu at yr awdurdod lleol a rhoi gwybod iddyn nhw am yr addysg rydych chi'n ei darparu.

Wedi i chi gwrdd â'r awdurdod lleol, dylen nhw baratoi adroddiad ac anfon copi ohono atoch chi. Bydd yr adroddiad yn dweud os oes unrhyw bryderon ynghylch yr addysg sy'n cael ei darparu. Dylai'r adroddiad rhoi manylion unrhyw argymhellion a wnaed gan yr awdurdod lleol ac unrhyw gam sydd angen i chi eu cymryd. Os bydd yr awdurdod lleol yn cysylltu dros y ffôn, dylen nhw dilyn hwn gan anfon cadarnhad ysgrifenedig yn manylu beth sydd wedi'i drafod a'i gytuno.

A fydd fy mhentyn yn gallu sefyll arholiadau?

Bydd. Gallech chi drefnu i'ch plant sefyll arholiadau yn eich canolfan arholi allanol lleol – coleg addysg bellach yn aml. Fodd bynnag, bydd rhaid i chi fod yn barod i gwrdd â'r gost eich hunain. Bydd yr awdurdod lleol yn gallu dweud wrthyfych chi ble mae'r ganolfan arholi agosaf.

A fydd fy mhentyn yn gallu cael gwasanaethau fel profon llygaid, sgrinio iechyd ac imiwneiddio sy'n cael eu darparu drwy'r ysgol fel arfer?

Bydd. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael i bob plentyn pa un a yw'n mynd i'r ysgol neu beidio. Dylech chi gysylltu â'ch meddyg teulu neu fwrdd iechyd lleol i gael gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaethau hyn.

Mae gen i ddiddordeb mewn addysgu fy mhentyn yn y cartref. Beth ddylwn ei wneud?

Os yw'ch plentyn yn mynd i'r ysgol, dylech chi ysgrifennu at bennaeth yr ysgol yn gofyn am dynnu enw'ch plentyn oddi ar y gofrestr gan eich bod yn bwriadu cymryd cyfrifoldeb dros ei addysg. Bydd y pennaeth yn tynnu enw'ch plentyn oddi ar y gofrestr a bydd yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol.

Os nad yw'ch plentyn erioed wedi mynd i'r ysgol, nid oes angen rhoi hysbysiad i'r ysgol.

Beth ddylwn ei wneud os oes datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) gan fy mhentyn?

Dylech chi ddilyn yr un drefn os oes datganiad o AAA gan eich plentyn a'i fod yn mynd i ysgol brif ffrwd. Fodd bynnag, os yw'ch plentyn yn mynd i ysgol arbennig, bydd angen i chi gael caniatâd gan yr awdurdod lleol cyn ei dynnu o'r ysgol.

Yn y naill achos neu'r llall, bydd yn ofynnol bod yr addysg rydych chi'n ei darparu yn cwrdd ag amcanion y datganiad o AAA. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i gynnal adolygiad bob blwyddyn am hyd y datganiad. Bydd yr adroddiad yn ystyried a yw geiriad y datganiad yn briodol o hyd ac a oes angen iddo aros mewn grym. Bydd gennych chi hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) o hyd.

A fydd fy mhentyn yn gallu dychwelyd i'r ysgol?

Bydd, ond rhaid i chi gysylltu â'r awdurdod lleol neu'r ysgol os mai'r ysgol yw'r awdurdod derbyn. Gallwch chi wneud hyn ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu y bydd lle ar gael yn yr ysgol roedd eich plentyn yn ei mynd i o'r blaen.

Dyma rhai cwestiynau i'w hystyried cyn penderfynu addysgu yn y cartref.

- A yw'ch plentyn yn teimlo'n gadarnhaol am yr awgrym o dderbyn addysg yn y cartref?
- A ydych chi'n hollol sicr mai hyn sydd orau i'ch plentyn?
- A oes gennych chi amser i'w roi at addysg eich plentyn?
- A yw'r gallu gennych chi i addysgu'ch plentyn yn effeithiol?
- A fyddwch chi'n gallu addysgu'ch plentyn at y lefel ofynnol os bydd am gymryd TGAU?
- A ydych chi'n barod i brynu'r adnoddau sydd eu hangen?
- A oes cymorth arall ar gael i chi?
- A oes gennych chi ddigon o le i greu man tawel ar gyfer gweithio?
- A oes cyfeuedd ar gyfer ymarfer corfforol?
- A fydd profadau cymdeithasol ar gael gyda phlant eraill?
- A ydych chi'n siŵr nad ydych chi'n dewis addysgu yn y cartref fel ffordd o osgoi cweryla â'r pennaeth neu'r ysgol, neu fel esgus dros beidio ag anfon eich plentyn i'r ysgol yn brydlon neu'n rheolaidd?

Cysylltiadau ac adnoddau defnyddiol

Dysgu Cymru

www.llyw.cymru/dysgu

Ed Yourself (Saesneg yn unig)

www.edyourself.org

Education Otherwise (Saesneg yn unig)

www.educationotherwise.net

Friends, Families and Travellers (Saesneg yn unig)

www.gypsy-traveller.org/education

Gyrfa Cymru

www.careerswales.com/cy

Home Education Advisory Service (Saesneg yn unig)

www.heas.org.uk

Home Education UK (Saesneg yn unig)

www.home-education.org.uk

Llywodraeth Cymru

www.llyw.cymru

Mae addysg yn dechrau yn y cartref

www.facebook.com/dechraucartref

TSO (Saesneg yn unig)

www.tso.co.uk